Theatr Clwyd

# Rheolwr Gweithrediadau a Datblygu Busnes y Gwasanaeth Cerddoriaeth

Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

**Parhaol**
**37 awr yr wythnos**
**Graddfa TC02 – SCP23-28**
**Cyflog £26,999 - £31,371**

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976 ac mae'r Tîm Gweithredol, y Cyfarwyddwr Artistig Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Liam Evans-Ford, yn arwain y theatr drwy gyfnod cyffrous o newid, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol.

Mae'r Adran Gerddoriaeth yn Theatr Clwyd yn hwb ar gyfer cyflwyno cerddoriaeth yn y gymuned. Mae'r ffocws ar sicrhau mynediad at gerddoriaeth i bob person ifanc a rhoi cyfle iddynt ddysgu chwarae offeryn. Bydd yr adran yn adeiladu ar gryfder Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir y Fflint, gan integreiddio ac adeiladu ar ragoriaeth nodedig ei waith hanesyddol. Gweledigaeth yr adran yw ceisio cyflwyno rhaglen waith sy'n ffrwyno pŵer cerddoriaeth i drawsnewid bywydau, a darparu dysgu creadigol ac ymgysylltu cymunedol. Ein nod ni yw cynnig y tiwtoriaid cerddoriaeth o'r safon uchaf bosib mewn lleoliadau addysgol a strwythurau llai ffurfiol. Bydd y profiadau a'r hyfforddiant cerddorol hyn ar gael i holl aelodau'r gymuned leol eu mwynhau gan hybu iechyd a lles da a hefyd cynnal a chyflawni cenhadaeth a gweledigaeth Theatr Clwyd.

Rydym yn chwilio am unigolyn i gefnogi'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth i weithredu Gwasanaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd yn hwylus gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn effeithlon a chyfrannu at ddatblygu a chyflawni amcanion busnes allweddol a datblygu partneriaethau a chyfleoedd busnes newydd.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch ag:
Enw: Aled Tudor Marshman
Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Cerddoriaeth
E-bost: aled.marshman@theatrclwyd.com

Mae Theatr Clwyd yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.